

Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-2020

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-2020

Gorffennaf 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru
Ynys Môn



Alun Davies AC
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Mark Reckless AC
Plaid Brexit
Dwyrain De Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion	5
1. Trosolwg.....	7
2. Pensiynau'r Sector Cyhoeddus.....	12
3. Brexit	16
4. Argyfwng Hinsawdd.....	20
5. Pecyn cyllid cyfalaf	23
6. Prosiect ffordd liniaru'r M4	25
7. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol	29
Atodiad 1: Memorandwm Esboniadol - Ombwdsmon	
Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	32
Atodiad 2: Memorandwm Esboniadol - Archwilydd Cyffredinol	
Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.....	36

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch y dull o ariannu newidiadau pensiwn yng Nghymru a'r Datganiad Polisi Cyllid..... Tudalen 15

Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiadau ynghylch cyllido unrhyw brosiectau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy a allai ddefnyddio'r cyllid a oedd ar gael yn flaenorol ar gyfer prosiect Llwybr Du yr M4.
..... Tudalen 28

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.....Tudalen 30

Casgliad 4. Bydd y Pwyllgor yn ystyried gweithrediad y dull cyfrifyddu diwygiedig a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gynnal ei waith craffu blynyddol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn yr hydref.
..... Tudalen 31

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adolygiad y mae'n bwriadu ei gynnal o'i hadnodd asesu effaith. Dylid darparu'r manylion hynny cyn gosod cyllideb ddrafft 2020-21.....Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol, ac unwaith eto, mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys y wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn y dyfodol, â'r bwriad o gysoni'r naratif yn well â chyllidebau drafft a'r gyllideb derfynol.....Tudalen 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr adnodd olrhain/gwirio siwrnai Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y cyfeiriwyd ato wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys pa gerrig milltir a gaiff eu cynnwys.....Tudalen 11

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr holl lwybrau sydd ar gael iddi i ddatrys y mater o ran cyllid ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus ac yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.
..... Tudalen 15

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol am sut y bydd yr arian cyfalaf o £85 miliwn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o Brexit..... Tudalen 19

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer pecyn ysgogi pellach, fod manylion yn cael eu cynnwys am y risgiau y bwriadwyd i'r cyllid eu lliniaru..... Tudalen 19

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall yr arian a allai fod ar gael yn achos "Brexit dim cytundeb" a bod y Pwyllgor yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny..... Tudalen 19

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywodraeth yn darparu manylion ynghylch sut y mae'n bwriadu cynllunio cyllidebau yn y dyfodol yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd a pha gamau gweithredu penodol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y datganiad o argyfwng yn cael ei adlewyrchu wrth gynllunio'r gyllideb..... Tudalen 22

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion y costau sy'n gysylltiedig â symud o darged statudol o ostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau erbyn 2050 i darged o 95 y cant..... Tudalen 22

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni ei hamcanion o ran cyllid a gyhoeddwyd fel rhan o'i phecyn cyllid cyfalaf o £85 miliwn..... Tudalen 24

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion iddi am y cyllid y mae'n bwriadu ei ddarparu i Gomisiwn yr M4 ac am y camau nesaf a nodwyd gan y Prif Weinidog..... Tudalen 28

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywodraeth yn rhoi gwybodaeth iddi am y blaenoriaethau cyllido yn rhaglen gyfalaf 2019-20 yn sgil y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â phrosiect yr M4, yn enwedig o ran sut y mae hyn wedi effeithio ar ei strategaeth fenthycu..... Tudalen 28

1. Trosolwg

- 1.** Gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ar 18 Mehefin 2019. Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu £264.2 miliwn ychwanegol i adrannau, gan gynyddu gwariant Llywodraeth Cymru o £18.4 biliwn yng Nghyllideb Derfynol 2019-20 i £18.7 biliwn, sef cynnydd o 1.4 y cant.
- 2.** Mae'r Gyllideb Atodol Gyntaf yn rheoleiddio nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt, yn ogystal â chynnwys addasiadau i Derfynau Gwariant Adrannol (DEL) i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a gafwyd ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ar gyfer 2019 a'r newidiadau a ragwelir i Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME).
- 3.** Bu'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ar 27 Mehefin 2019.

Newidiadau i'r Drefn Gyllido

- 4.** Disgwylir i'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gynyddu £245.7 miliwn (1.3 y cant), o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2019-20. Mae hyn yn cynnwys cynnydd net o £255.7 miliwn mewn cyllid refeniw (1.6 y cant) a gostyngiad net mewn cyllid cyfalaf o £10 miliwn (-0.3 y cant). Cyfanswm cyllid Cymru yw £19.4 biliwn.
- 5.** Nid oes dim newid i'r swm arfaethedig a fenthycir, sef £125 miliwn, a dim newid i'r cyllid y rhagwelir y bydd ar gael drwy drethi Cymru.
- 6.** Y newidiadau net i gronfeydd wrth gefn yw cynnydd mewn refeniw arian parod o £43.3 miliwn (32.1 y cant) a gostyngiad mewn cronfeydd cyfalaf cyffredinol o £64 miliwn (-38.9 y cant).


Newidiadau i linellau sylfaen

- 7.** Bu cynnydd net o £309.4 miliwn (2.6 y cant) o ran Adnoddau Cyllidol (arian parod refeniw) i £12 biliwn. Mae adnoddau anghyllidol hefyd wedi cynyddu £83,000 o ganlyniad i drosglwyddiad o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol.
- 8.** Bu cynnydd net i gyfalaf cyffredinol o £17.1 miliwn (0.9 y cant), ni fu unrhyw newid i Gyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) ers y gyllideb derfynol.

Mehefin 2019

Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-20

Prif ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf (CAG), yn dangos symudiad arian o Gyllideb Derfynol (CD) 2019-20



DEL yw'r rhan o'r gyllideb y gall Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario yn ôl ei disgrisiwn ei hun.
AME yw'r rhan o'r gyllideb na all Llywodraeth Cymru ei gwario yn ôl ei disgrisiwn ei hun.

	Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf*	Newid o CD i CAG
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£8,374m	+£186m 2.3% ▲
Tai a Llywodraeth Leol*	£4,521m	+£95m 2.2% ▲
Addysg	£1,729m	+£11m 0.6% ▲
Economi a Thrafnidiaeth	£1,291m	+£34m 2.7% ▲
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	£298m	+£5m 1.8% ▲
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth	£356m	+£35m 11.1% ▲
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	£177m	-£19m -9.9% ▼

*Ddim yn cynnwys cyfraddau incwm annomestig £1bn



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu.
Gweler Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-20 am yr union ffigurau.

Ffigur 1: Ffeithlun yn dangos y prif ffigurau o Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-20 ac arian parod a symudwyd o Gyllideb Derfynol 2019-20

9. Mae newidiadau i wariant a reolir yn flynyddol yn cynnwys gostyngiad net o £55.7 miliwn (-37.0 y cant) mewn refeniw ariannol ac anghyllidol, a gostyngiadau o £27.2 miliwn (-3.4 y cant) mewn gwariant cyfalaf a reolir yn flynyddol.

Aseidiadau effaith a chyflwyniad

10. Gofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch darparu rhagor o wybodaeth naratif yn y gyllideb atodol (fel yr argymhellodd y Pwyllgor ar ôl craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2018-19¹). Awgrymodd y Gweinidog fod angen i'r naratif a gynhwysir yn nogfennau'r gyllideb atodol fod yn "gymesur":

"...the vast majority of the supplementary budget relates to pensions money, and, if we don't include that, obviously we're looking at just over 0.5 per cent of the Welsh Government's budget, so I think we have to be proportionate in terms of the kind of information that we provide. But, of course, all of these decisions that are reflected in the second supplementary budget have been through the normal impact assessment work that goes on."²

11. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei bod wedi ymrwymo i adolygu ei hadnodd asesu effaith integredig ac y byddai'n gwneud y gwaith hwnnw dros yr haf. Byddai hyn yn cynnwys cyfarfod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhanddeiliaid eraill ym mis Gorffennaf.³

12. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud ei bod yn teimlo bod yr adnodd asesu effaith integredig wedi cael ei groesawu gan gydweithwyr, ac ychwanegodd:

"...one of the things it's fair to say is that colleagues now are recognising that they need to employ this much earlier on in the decision-making process. So, we need to demonstrate the decisions that are being considered or the advice that is being presented to Ministers and how that has changed as a result of impact assessments, and I think that's what the commissioner particularly wants to see, and I think it's what Ministers want to see as well, to show that the impact on people with protected characteristics or the environment and all of these items have been considered early on in the development of proposals, rather

¹ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-2019, Chwefror 2019, Argymhelliad 2

² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 166

³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 168

than working up proposals and then working out how they will impact on people and the environment and so on.”⁴

13. Yn sesiwn y Pwyllgorau ar y cyd ar gyllideb ddrafft 2019-20, trafodwyd asesiadau effaith yn benodol. Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion o'r sesiwn honno, nodwyd manylion cyfarfod i drafod yr adnodd asesu effaith ymhlith y Comisiynwyr:

“Yn y cyfarfod, mynegwyd pryderon gan rai aelodau ynglŷn â'r posibilrwydd y câi'r broses o ystyried effaith ei gwanhau wrth fynd ati mewn ffordd integredig. Cytunwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Panel Cyngori ymhellach yn ystod yr adolygiad o'r adnodd asesu effaith integredig ac yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Mae swyddogion wedi cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y byddant yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Panel Cyngori ym mis Gorffennaf 2019 i drafod hynt yr adolygiad a chamau pellach. Bydd y camau pellach hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr.”

14. Soniodd y Gweinidog hefyd am yr “adnodd gwirio'r siwrnai” y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei ddatblygu gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth amdano ar ôl craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20. Nododd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Comisiynydd:

“I know the committee was really interested in the future generations commissioner's challenge of Government last year in terms of our budget. One of her key asks, I think, of Government was to develop a journey checker so that we can understand the route that we're on, how far we've come so far in terms of embedding the Act, but then how much further we need to go to really ensure that it is at the centre of decision making. So, officials have been working really closely with her and her office to develop that journey checker as well.”⁵

15. Wrth ymateb i Argymhelliad 2 yn adroddiad y Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2018-19, derbyniodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor yr angen i gysoni gwybodaeth y gyllideb atodol yn well â chyllidebau drafft a'r gyllideb derfynol. Dywedodd:

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 172

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 80

“Rydym yn adolygu’r wybodaeth a ddarperir i ategu cynnig y gyllideb atodol yn barhaus. At y dyfodol, byddwn yn anelu at ddarparu naratif mwy cynhwysfawr ar gyfer dyraniadau sylweddol o gronfeydd wrth gefn mewn cyllidebau atodol.”⁶

Barn y Pwyllgor

16. Er bod y Pwyllgor yn derbyn bod angen bod yn gymesur o ran y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn nogfennau’r gyllideb, ac yn enwedig yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, gallai’r naratif sy’n cyd-fynd â’r gyllideb atodol hon fod yn fwy tryloyw o ran effaith penderfyniadau a gallai egluro’r dyraniadau hynny’n well. Er enghraifft, mae’r dyraniad o £85 miliwn o gyfalaf yn sylweddol ac fe’i cyhoeddwyd ar ddiwrnod y Gyllideb Atodol. Dim ond esboniad byr o’r cyllid hwnnw sydd i’w weld yn y Gyllideb Atodol ac nid yw’n glir o’r ddogfennaeth sut y mae’n cysylltu â Brexit neu amcanion economaidd ehangach Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod y prosesau asesu effaith hyn yn cael eu cynnal fel mater o drefn. Os felly, ni fyddai’r Pwyllgor yn disgwyl i gynnwys y wybodaeth honno fod yn ymdrech sylweddol.

17. Mae’r Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei hadnodd asesu effaith dros yr haf. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon o hyd am swyddogaethau’r adnodd a sut y mae’n cael ei ddefnyddio. Mae’r Pwyllgor yn pryderu’n arbennig am sylwadau’r Gweinidog mai dim ond nawr y mae’n dechrau dod yn arfer safonol asesu effaith ar gam cynnar wrth ddatblygu penderfyniadau polisi.

Argymhelliad 1. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adolygiad y mae’n bwriadu ei gynnal o’i hadnodd asesu effaith. Dylid darparu’r manylion hynny cyn gosod cyllideb ddrafft 2020-21.

Argymhelliad 2. Mae’r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol, ac unwaith eto, mae’n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys y wybodaeth sy’n cyd-fynd â’r gyllideb atodol yn y dyfodol, â’r bwriad o gysoni’r naratif yn well â chyllidebau drafft a’r gyllideb derfynol.

Argymhelliad 3. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr adnodd olrhain/gwirio siwrnai Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol y cyfeiriwyd ato wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys pa gerrig milltir a gaiff eu cynnwys.

⁶ Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-19

2. Pensiynau'r Sector Cyhoeddus

18. Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys £239.4 miliwn o gyllid refeniw i dalu'r costau ychwanegol i sefydliadau'r sector cyhoeddus oherwydd newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.

19. Dyrannwyd cyllid ar gyfer y newidiadau pensiwn hyn i adrannau fel a ganlyn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £170.6 miliwn;
- Tai a Llywodraeth Leol £46.2 miliwn;
- Addysg £9.1 miliwn;
- Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg £494,000;
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £2.0 miliwn;
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £11.1 miliwn.

20. Ym mis Mawrth 2019, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r costau pensiwn yn cael eu cyllido'n llawn. Ar fore sesiwn dystiolaeth y Gyllideb Atodol, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi manylion am yr arian gan Lywodraeth y DU, gan nodi:

“...mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau mai £219m yw'r dyraniad terfynol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r costau hyn yn 2019-20. Cyfanswm cost y newidiadau hyn i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru yw £255m. Mae hynny yn fwlch o £36m mewn cyllid.”

21. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog:

“Welsh Government is not in a position to not fund those pension increases. Of course, it's the right thing to do for our public sector staff, and, as such, that means that we've had to divert £36 million of revenue from other investment and other priorities that we would have as a Government to meet that shortfall.”⁷

22. Eglurodd y Gweinidog fod diffyg yn y cyllid am fod Llywodraeth y DU wedi trin Llywodraeth Cymru yr un modd ag adrannau eraill nad oedd yn darparu'r

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 10

cyllid llawn ar eu cyfer, gan effeithio, drwy hynny, ar yr arian canlyniadol a oedd ar gael drwy fformiwla Barnett.⁸

23. Nodwyd yn natganiad ysgrifenedig mis Mehefin 2019 bod y Datganiad Polisi Cyllid yn dweud:

“pan fydd penderfyniadau a wneir gan unrhyw un o’r gweinyddiaethau datganoledig neu gyrff o dan eu hawdurdodaeth yn arwain at oblygiadau ariannol i adrannau neu asiantaethau Llywodraeth y DU, neu, fel arall, pan fydd penderfyniadau adrannau neu asiantaethau Llywodraeth y DU yn arwain at gostau ychwanegol i unrhyw un o’r gweinyddiaethau datganoledig, lle nad oes trefniadau eraill yn bodoli yn awtomatig i addasu ar gyfer costau ychwanegol o’r fath, bydd y corff a wnaeth y penderfyniad a arweiniodd ar y gost ychwanegol yn ysgwyddo’r gost.”⁹

24. Roedd y datganiad ysgrifenedig yn nodi bod y Gweinidog yn fodlon dyrannu’r arian ychwanegol i sefydliadau’r sector cyhoeddus yng Nghymru ar y sail hon.¹⁰

25. Pan ofynnwyd sut y bydd y newidiadau pensiwn yn y dyfodol yn cael eu cyllido, dywedodd y Gweinidog:

“We have no confirmation of future funding, so it would be part of the discussion of a comprehensive spending review and, ...we don’t yet know when that might take place.”¹¹

26. Dywedodd y Gweinidog fod y cyfarfodydd pedairochrog rhwng pedair Llywodraeth y DU i drafod materion cyllid yn llai aml nag y byddai’n ei hoffi ac yn llai aml nag y byddai’r gwledydd datganoledig eraill yn ei hoffi hefyd.¹²

27. O ran y datganiad polisi cyllid, dywedodd y Gweinidog:

“...in the meeting that we did have with the Chief Secretary to the Treasury, I was very clear that we did need to review the statement of funding policy, and that work is being led by Welsh Government

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 12

⁹ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Dyrannu cyllid i ysgwyddo costau ychwanegol pensiynau sector cyhoeddus Cymru yn 2019-20](#)

¹⁰ Fel uchod

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 27

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 32

officials in partnership with officials across the other nations. But it certainly needs to be, I think, tightened up, so there's absolutely no room for ambiguity and no room for UK Government not to deliver on the items that are in the statement."¹³

28. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y caiff newidiadau i bensiynau eu hadlewyrchu yng nghyllidebau ysgolion ar gyfer staff cymorth addysgu, a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor â gwybodaeth ychwanegol am y trefniadau cyllido ar gyfer staff cymorth addysgu.

Barn y Pwyllgor

29. Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi mynd ati i gyllido cynnydd mewn pensiynau, ac mae'n cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymdrechion i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu cyllido'n llawn, y flwyddyn ariannol hon ac yn y dyfodol.

30. Cred y Pwyllgor nad yw'r Datganiad Polisi Cyllid wedi cael ei gymhwyso'n gywir o dan yr amgylchiadau hyn, fod hon yn elfen annatod o'r setliad datganoli ac y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU lynu wrthi. Cred y Pwyllgor y dylid mynd i'r afael â'r mater o ran y Datganiad Polisi Cyllid cyn gynted â phosibl.

31. Bydd y Pwyllgor yn ymchwilio i weld a oes unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd i ddangos cefnogaeth i Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau ei bod yn cael y lefel gywir o gyllid mewn perthynas â'r newidiadau i bensiynau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid llawn am y costau pensiwn ychwanegol ac mae'n croesawu'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i dalu'r diffyg. Mae'r newidiadau hyn yn deillio o benderfyniad Llywodraeth y DU ac o'r herwydd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r costau hyn gael eu hariannu'n llawn yn unol â'r Datganiad Polisi Cyllid.

32. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oes cadarnhad o gyllid yn y dyfodol ac, er ei fod yn nodi barn Llywodraeth y DU fod hyn yn rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae'n annog Llywodraeth y DU i roi sicrwydd ynglŷn â'r arian hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac ar gyfer y dyfodol.

33. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y modd y gwnaed y penderfyniad hwn a'r ffordd y darparwyd y cyllid o bosibl yn gosod cysail sy'n peri pryder ynghylch y Datganiad Polisi Cyllid.

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 32

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr holl lwybrau sydd ar gael iddi i ddatrys y mater o ran cyllid ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus ac yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch y dull o ariannu newidiadau pensiwn yng Nghymru a'r Datganiad Polisi Cyllid.

3. Brexit

34. Pan oedd y Pwyllgor yn craffu ar Gyllideb ddrafft 2019-20 ac Ail Gyllideb Atodol 2018-19, roedd disgwyl i'r DU adael yr UE ar 29 Mawrth 2019. Ers hynny mae'r DU wedi cael dau estyniad i'r dyddiad hwnnw, hyd at naill ai 22 Mai neu 12 Ebrill 2019 i ddechrau ac yna **estyniad hyblyg** hyd at 31 Hydref 2019.

35. Ar 4 Mehefin, nododd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit mewn **datganiad i'r cyfarfod llawn** fod yn rhaid i baratodau ar gyfer "dim cytundeb" barhau ac "ers cytuno ar yr estyniad ym mis Ebrill, rydym ni wedi bod yn achub ar y cyfle i adolygu'r paratodau". Aeth y Cwnsler Cyffredinol ymlaen i ddweud "rydym yn dal i gael cydbwysedd er mwyn sicrhau ein bod yn dyrannu adnoddau ar baratodau 'dim cytundeb' yn briodol ac yn gymesur".

36. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn dyrannu £9 miliwn ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bontio'r UE. Nod y Gronfa yw helpu busnesau, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit drwy gynnwys busnesau a chymunedau wrth nodi'r meysydd hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wrth i Brexit agosáu. Mae'n darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru.

37. Pan ofynnwyd sut mae'r gyllideb atodol yn diwygio cynlluniau Llywodraeth Cymru i ystyried y ffaith nad yw'r DU wedi gadael yr UE hyd yn hyn, dywedodd y Gweinidog:

"...there are two main areas where the latest situation on Brexit has been reflected, the first being the capital allocations of £85 million to support Wales, particularly in the event of a 'no deal'. As a Government, we view the threat of 'no deal' extremely seriously. ...Clearly, it's something that we need to be sure that we have done everything possible to prepare for. So, the capital stimulus package was intended to give some confidence and some certainty to business. We've seen already, over the last month or so, just how fragile the sector can be at the moment. So that was the main allocation of £85 million, and we can talk a bit more about how that's broken down, if you like.

The other main allocation is £11.4 million allocated from the EU transition fund. And that's been, again, designed to help business, the public sector, third sector organisations and others prepare for Brexit, providing support across sectors, from UK field epidemiology to enhanced export services, compliant wood packaging, and so on. So

there have been a large number of projects that have been funded in that £11.4 million. Most of them are under £1 million, and they reflect bids that were put in by individual Ministers based on the kind of representations they're getting from their stakeholders and others.”¹⁴

38. Ar 18 Mehefin (y dyddiad y gosodwyd y Gyllideb Atodol hon) cyhoeddodd y Gweinidog becyn buddsoddi cyfalaf gwerth cyfanswm o £85 miliwn (sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Atodol), a gyflwynwyd yng nghyd-destun Brexit:

“Nid yw'r cyhoeddiad hwn ond yn un o'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i ymateb i'r heriau difrifol i'n heconomi sy'n codi yn sgil Brexit. Ar y cyd â mentrau megis ein cronfa bwrpasol, Cronfa Bontio'r UE sy'n werth £50 miliwn, a'r pecyn Cyllid Busnes gwerth £121 miliwn, sy'n cael ei ddarparu drwy Fanc Datblygu Cymru, byddwn yn defnyddio cyfres o fesurau i baratoi ar gyfer effeithiau Brexit. Wrth inni nesáu at ddiwrnod Brexit, byddwn yn parhau i ystyried pob mesur a all amddiffyn yr economi a swyddi, gan gynnwys defnyddio rhagor o gyllid cyfalaf.”

39. Bydd yr £85 miliwn yn cael ei ddyrranu ar draws pedwar maes yn y Prif Grwpiau Gwariant sy'n berthnasol i Dai a Llywodraeth Leol a'r Economi a Thrafnidiaeth.

40. Mae'r rhan fwyaf o'r pecyn cyllid cyfalaf o £85 miliwn a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod â'r gyllideb atodol wedi'i ddyrranu i Dai a Llywodraeth Leol. Mae naratif y gyllideb yn nodi:

“Cafodd y dyraniadau hyn eu gwneud yn unol â chyfres o feini prawf gwerthuso a oedd yn ymwneud ag ystod eang o ystyriaethau. Y cynigion y penderfynwyd bwrw ymlaen â nhw ar y cam hwn oedd y rhai y gellid eu cyflawni'n gyflym o fewn y flwyddyn, gan roi budd economaidd sy'n cydfynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.”¹⁵

41. Roedd y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn cynnwys £20 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi:

“Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol wrth ddefnyddio'r cyllid hwn ble bynnag y mae ei angen fel rhan o'r pecyn ysgogi ehangach.”

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraffau 64 a 65

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2019-2020 Nodyn Esboniadol, Mehefin 2019.

42. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer Brexit, dywedodd:

"I was clear when I made the announcement of the £85 million that there would be the potential for a further capital stimulus package, should it be needed, as we get closer to that Brexit date. And I'm asking colleagues already to start prioritising items within their portfolios, which, again, could be brought forward and delivered quickly."¹⁶

43. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd am y posibilrwydd o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU pe na bai cytundeb. Awgrymodd mai dim ond rhai trefniadau oedd wedi'u cytuno:

"...we're making the case but, unfortunately, the response is not as we would wish it to be. When I was discussing it with the Chief Secretary to the Treasury, she was adamant that there was no need to have a discussion about funding in the event of a 'no deal' Brexit, because a deal would be done and we didn't need to concern ourselves with planning for a 'no deal' Brexit, because it wouldn't be on the cards."¹⁷

44. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod yr holl drafodaethau, mewn gwirionedd, yn anfodhaol.¹⁸

Barn y Pwyllgor

45. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid cyfalaf ychwanegol o £85 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r arian hwn yn bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran ei strategaeth Brexit. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i unrhyw gyhoeddiadau cyllid pellach sy'n ymwneud â Brexit fod yn glir o ran sut y mae'r prosiectau hynny'n lliniaru unrhyw amgylchiadau negyddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

46. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am sylwadau'r Gweinidog nad yw Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch cyllid os bydd Brexit heb gytundeb. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater pwysig hwn.

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 69

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 73

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 75

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol am sut y bydd yr arian cyfalaf o £85 miliwn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o Brexit.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, pe bai Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer pecyn ysgogi pellach, fod manylion yn cael eu cynnwys am y risgiau y bwriadwyd i'r cyllid eu lliniaru.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall yr arian a allai fod ar gael yn achos "Brexit dim cytundeb" a bod y Pwyllgor yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny.

4. Argyfwng Hinsawdd

47. Ar 29 Ebrill, [cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, argyfwng hinsawdd](#) yng Nghymru. Roedd y datganiad hwnnw'n amlinellu bod y datganiad yn tynnu sylw at "aruthredd a phwysigrwydd" y dystiolaeth ddiweddaraf gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd ac yn tynnu sylw at y protestiadau hinsawdd diweddar ledled y DU. Roedd Llywodraeth Cymru i fod i gael cyngor yn dilyn y datganiad gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd o ran yr opsiynau ar gyfer gosod targedau sero net ar gyfer allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr. Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i nodi:

"Rydym yn gobeithio y gall y datganiad gan Lywodraeth Cymru ein helpu i sbarduno ton o weithredu yma ac yn rhyngwladol, gan ein cymunedau, ein busnesau a'n sefydliadau ein hunain a chan seneddau a llywodraethau ledled y byd.

Nid yw mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth y gallwn ei adael i unigolion nac i'r farchnad rydd. Rhaid wrth weithredu ar y cyd, ac mae gan y llywodraeth ran ganolog i'w chwarae yn hynny o beth."

48. Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, "[Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel](#)" (mis Mawrth 2019) yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflawni ei chyllideb garbon gyntaf (2016-2020). Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol o dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80 y cant yn 2050. Croesawodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y cyhoeddiad am argyfwng hinsawdd, ac mewn cofnod [blog](#) nododd:

"Wrth ddatgan argyfwng, rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut mae'n bwriadu ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd a gyda pha adnoddau, yn benodol yn eu cyllideb flynyddol, a sut y byddant yn cymryd camau i leihau allyriadau."

49. Ar 11 Mehefin 2019, [derbyniodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig](#) argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar y Newid Hinsawdd "[Net Zero – The UK's contribution to stopping global warming](#)", a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru geisio lleihau allyriadau 95 y cant erbyn 2050. Awgrymodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn anelu at allyriadau net sero erbyn 2050 fan bellaf.

50. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y mae'r Gyllideb Atodol hon wedi'i thargeddu at gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru o ran newid yn yr hinsawdd. Atebodd y Gweinidog:

“The first supplementary budget is relatively small in the sense that it represents only 1.9 per cent of the budget; 1.6 per cent is relating to the pensions issue. So, in effect, we're talking about just over 0.5 per cent of the budget, which is why what we can actually do in terms of climate change is relatively constrained.”¹⁹

51. Nododd y Gweinidog fod newid yn yr hinsawdd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i'w thrafodaethau â Gweinidogion y Llywodraeth, a dywedodd fod y Prif Weinidog wedi gofyn i Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, arwain ar ddatgarboneiddio. Aeth y Gweinidog yn ei blaen:

“So, Vaughan [Gething] will be asking colleagues, in the decisions that they're taking about their budget, to demonstrate how are they responding to the climate emergency, how are they dealing with decarbonisation in the decisions that they're making. It's to make sure that we aren't missing opportunities and that there isn't opportunity for join-up across Government that we haven't yet spotted.”²⁰

52. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar waith y Llywodraeth gyda Chomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwaith o ddatblygu adnodd gwirio siwrnai:

“...officials have been working really closely with her and her office to develop that journey checker as well. So, I think it is fair to say that the conversations that are being had are changing now with decarbonisation and climate change more widely at the centre of it.”²¹

Barn y Pwyllgor

53. Er gwaethaf datganiad diweddar y Llywodraeth am yr argyfwng hinsawdd, mae'r Pwyllgor yn synnu nad oes unrhyw newid yn sgil hynny i flaenoriaethau'r Llywodraeth yn y gyllideb atodol hon. Mae'r Pwyllgor yn pryderu na ddefnyddiwyd

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 78

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 79

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 80

y Gyllideb Atodol hon fel cyfle i gymryd y camau y byddai wedi'u disgwyl yn dilyn y fath ddatganiad o argyfwng.

54. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan sylwadau'r Gweinidog fod materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn ganolog i'r dull gweithredu a hoffai weld rhagor o wybodaeth am sut y mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi newid ers cyhoeddi'r argyfwng hinsawdd.

55. Yn ogystal â hynny, mae'r Pwyllgor yn ansicr pam mae'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain ar ddatgarboneiddio o fewn y Llywodraeth, a byddai'n croesawu esboniad o'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn darparu manylion ynghylch sut y mae'n bwriadu cynllunio cyllidebau yn y dyfodol yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd a pha gamau gweithredu penodol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y datganiad o argyfwng yn cael ei adlewyrchu wrth gynllunio'r gyllideb.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion y costau sy'n gysylltiedig â symud o darged statudol o ostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau erbyn 2050 i darged o 95 y cant.

5. Pecyn cyllid cyfalaf

56. Dyrannwyd y pecyn cyllid cyfalaf cyffredinol o £85 miliwn a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod y cyhoeddwyd y Gyllideb Atodol fel a ganlyn:

- £10 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu Busnes mewn perthynas â Chronfa Dyfodol yr Economi a fydd yn cyflymu'r broses o gyflwyno'r pecynnau cymorth amrywiol sy'n rhan o'r Gronfa ar draws holl ranbarthau Cymru;
- £5 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gweithrediadau Rhwydwaith mewn perthynas â chefnffyrdd a cherbydffyrdd ar y draffordd er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd ym mhob rhan o Gymru, gan gefnogi'r gadwyn gyflenwi arbenigol ar yr un pryd;
- £50 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol mewn perthynas â buddsoddiad mewn tai cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyd at 650 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru;
- £20 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyllid ar gyfer Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Pecyn Cyllido Awdurdodau Lleol.

57. O ran y cyllid ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi, amlinellodd y Gweinidog y mathau o brosiectau y gellid defnyddio'r gronfa ar eu cyfer:

“the kind of areas that could be supported would be the automotive sector, manufacturing, life sciences and advanced battery manufacturing. And those sectors could be supported through the six schemes that are currently included in the economy futures fund, which are capital investment and aid for job creation, SMART Cymru research and development, the tourism investment support scheme, the environmental protection scheme and the creative production funding and also a repayable fund for small and medium-sized enterprises.”²²

58. Holodd y Pwyllgor ynghylch y defnydd o'r cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy ac a fyddai hyn ar gael i awdurdodau lleol adeiladu tai cyngor. Dywedodd y

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 96

Gweinidog y byddai ar gael at y dibenion hynny ac y byddai'n cael ei ddarparu drwy'r grant tai cymdeithasol.²³

59. Holodd y Pwyllgor hefyd sut y dyrennir y cyllid o £20 miliwn sydd i'w ddarparu i awdurdodau lleol o dan gyfalaf cyffredinol. Dywedodd y Gweinidog:

“the Minister for Housing and Local Government has her officials currently liaising with the Society of Welsh Treasurers’ executive, to explore ensuring that the grant gives local authorities enough flexibility to use that funding as they choose, in terms of their own priorities locally. Again, this is about ensuring that local authorities are able to take forward projects very quickly and in year, based on their local priorities.”²⁴

60. Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi y “bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol wrth ddefnyddio'r cyllid hwn ble bynnag y mae ei angen fel rhan o'r pecyn ysgogi ehangach”.

Barn y Pwyllgor

61. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid o £85 miliwn a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod y cyhoeddwyd y gyllideb atodol. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn deall yn glir sut y mae'r pecyn ariannu yn ymwneud yn benodol â Brexit ac i ba raddau y mae'n bodloni amcanion Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.

62. Nid yw'r Pwyllgor yn deall yn glir ychwaith sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni amcanion sy'n gysylltiedig â'r arian cyfalaf cyffredinol o £20 miliwn a ddyrannwyd i awdurdodau lleol a sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio'r cyllid hwnnw.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni ei hamcanion o ran cyllid a gyhoeddwyd fel rhan o'i pheccyn cyllid cyfalaf o £85 miliwn.

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraffau 157 a 159

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 164

6. Prosiect ffordd liniaru'r M4

63. Ar 4 Mehefin 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Llwybr Du ffordd liniaru'r M4. Yn y datganiad, cyfeiriodd y Prif Weinidog at nifer o gamau ar gyfer y dyfodol, a ategwyd mewn **datganiad ysgrifenedig** gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y diwrnod wedyn. Mae'r camau nesaf hynny'n cynnwys mesurau sydd i'w rhoi ar waith yn syth yn y tymor byr:

- swyddogion traffig ychwanegol;
- cerbydau achub penodedig ar alw;
- gwybodaeth fyw am deithiau;
- ystyried gweithrediad cyffyrdd i leihau'r baich ar dwneli Brynglas;
- ymgyrch i newid ymddygiad gyrwyr.

64. Mae'r mesurau hirdymor yn cynnwys penodi Comisiwn arbenigol i wneud argymhellion ar y camau nesaf ar gyfer y rhwydwaith trafndiaeth yn ne-ddwyrain Cymru.

65. Mae'r datganiad yn nodi bod £114 miliwn wedi'i wario ers 2013 ar ddatblygu'r cynigion. Mae'n mynd ymlaen i ddweud na fydd hyn:

“...yn wariant ofer gan y bydd y Comisiwn yn gwneud defnydd da ohono trwy wneud yn siŵr fod ganddo'r wybodaeth orau am fodolau teithio, arolygon amgylcheddol a'r holl ffactorau eraill sydd ar waith yn y rhanbarth.”

66. Cadarnhaodd y Gweinidog mai dyma oedd y gost derfynol a'i bod yn cynnwys popeth (gan gynnwys TAW). O ran y cyllid a allai fod ar gael i unrhyw brosiectau yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog:

“In terms of next steps, the First Minister has been clear that the work that the commission does in terms of identifying potential solutions for congestion and traffic problems in and around Newport would have the first call on the funding that would otherwise have been spent on the M4 black route.”²⁵

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 104

67. Soniodd y Gweinidog hefyd am rai camau nesaf, a amlinellwyd gan y Prif Weinidog yn flaenorol, a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr Ail Gyllideb Atodol:

“There are some shorter term initiatives, which the First Minister has also talked about—so, increased or additional traffic officers, increased live journey time information and a behavioural campaign. We expect that to amount to around between £4 million and £5 million over two years, and you'll see that reflected in the second supplementary budget.”²⁶

68. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog nad oedd unrhyw arian wedi'i nodi yn y Gyllideb Atodol hon y gellid ei ddefnyddio ar gyfer penderfyniadau'r Comisiwn newydd a sefydlwyd. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r £20 miliwn o gyfalaf y bwriadwyd ei ddefnyddio eleni, pe bai'r Llwybr Du wedi mynd yn ei flaen, yn aros mewn cronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio ar brosiectau eraill.²⁷

69. Yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mehefin 2019, dywedodd y Prif Weinidog y bydd y Comisiwn yn cael “yr alwad gyntaf am yr arian a fyddai wedi ei neilltuo fel arall ar gyfer ffordd liniaru'r M4”.²⁸ Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch beth oedd hyn yn ei olygu yn ymarferol. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cyllideb benodol²⁹ a bod yr £20 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer yr M4 bellach wedi'i symud i gronfeydd wrth gefn³⁰. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“...we don't want the commission, which is only now being established, to feel constrained or to design projects to meet a specific budget. The commission needs to have the space to do its work and come back with the recommendations that they think will make a difference and then we can judge those in the round in terms of the affordability of projects.”³¹

70. O ran capasiti benthyca Llywodraeth Cymru, yn dilyn y penderfyniad ynghylch Llwybr Du yr M4, holodd y Pwyllgor y Gweinidog sut y byddai'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio bellach. Dywedodd y Gweinidog:

“...we can only borrow up to a maximum of £1 billion and we can draw down £150 million a year, and that was profiled into the spend in terms

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 104

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 106

²⁸ Y Cyfarfod Llawn, 4 Mehefin 2019, paragraff 153

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 112

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 120

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 122

of delivering the M4. And on top of that, then, we would have been using our capital budgets in those years as well.”³²

71. Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“We only borrow to increase our overall spending capacity. So, we don’t borrow specifically for specific projects, but we had plans to borrow—. We do plan to borrow £125 million this year, of which £25 million has now been allocated. The rest remains in reserves for allocation throughout the year.”³³

Barn y Pwyllgor

72. Mae’r Pwyllgor yn derbyn bod Llywodraeth Cymru yn benthycu arian i gynyddu ei chapasiti gwario cyffredinol, yn hytrach na’i gwariant ar brosiectau penodol. Fodd bynnag, nid yw’n glir beth yw’r rhesymeg dros barhau i fenthycu ar y lefelau sydd eu hangen i ariannu Llwybr Du yr M4 nawr na fydd y prosiect hwnnw’n mynd rhagddo. Mae’r Pwyllgor yn awyddus i ddeall pa brosiectau fydd yn cael eu dwyn ymlaen, eu hailbroffilio neu eu dechrau o’r newydd a allai olygu bod angen i Lywodraeth Cymru gynyddu ei chapasiti o ran gwariant yn y ffordd hon, a byddai’n croesawu gwybodaeth am sut y mae’r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Llwybr Du yr M4 wedi effeithio ar broffil benthycu Llywodraeth Cymru.

73. Nid yw’r Pwyllgor yn deall yn glir beth yw cyllideb ac uchelgeisiau Comisiwn yr M4. Mae’r Pwyllgor yn deall bod yr £20 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer prosiect arfaethedig Llwybr Du yr M4 bellach wedi’i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn. Nid yw’n glir sut y mae hyn yn cyd-fynd â’r hyn a ddywedodd y Gweinidog a’r Prif Weinidog am roi’r cyfle gyntaf i hawlio’r cyllid y bwriadwyd ei wario ar brosiect y Llwybr Du i’r Comisiwn, gan ei bod yn ymddangos nad yw’r arian hwn wedi’i neilltuo.

74. Byddai’r Pwyllgor wedi hoffi gweld cynnydd ar gamau nesaf y Prif Weinidog o ran yr M4 yn y Gyllideb Atodol hon, gan fod hwn wedi bod yn fater hirdymor i’r Llywodraeth a chymunedau yn ne Cymru. Dylid ystyried bod gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r mater hwn yn rhai brys ac nid yw’n glir o dystiolaeth y Gweinidog pryd y mae’r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni ei chamau nesaf.

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 136

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 141

Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiadau ynghylch cyllido unrhyw brosiectau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy a allai ddefnyddio'r cyllid a oedd ar gael yn flaenorol ar gyfer prosiect Llwybr Du yr M4.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion iddi am y cyllid y mae'n bwriadu ei ddarparu i Gomisiwn yr M4 ac am y camau nesaf a nodwyd gan y Prif Weinidog.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn rhoi gwybodaeth iddi am y blaenoriaethau cyllido yn rhaglen gyfalaf 2019-20 yn sgil y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â phrosiect yr M4, yn enwedig o ran sut y mae hyn wedi effeithio ar ei strategaeth fenthycyca.

7. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

75. Mae'r cynnig cyllideb atodol yn cynnig amrywio cyllidebau tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau hyn o'r gyllideb atodol yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2019.

76. Mae pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn ceisio amrywiad i'w gyllideb ar gyfer 2019-20 oherwydd cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr i'r CSPS.

77. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r dull o ariannu'r costau pensiwn ychwanegol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol yr un fath ag ar gyfer cyrff sector cyhoeddus eraill.³⁴

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

78. Yn y Memorandwm Esboniadol (atodiad 1) ceisir cynnydd yng nghyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar gyfer 2019-20 o £148,000 i adlewyrchu newidiadau i gostau pensiwn cyflogwyr.

79. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn ceisio cynnydd o £251,000 mewn perthynas â gweithredu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae hyn yn cynnwys:

- £27,000 ar gyfer costau untro (recriwtio staff, dodrefn swyddfa, ffitiadau a TG);
- £224,000 ar gyfer costau parhaus am ran o'r flwyddyn, gan gymryd y daw'r Ddeddf i rym ym mis Gorffennaf 2019 (mae £186,000 ohono'n ymwneud â chyflogau staff);

80. Mae'r Ombwdsmon yn nodi bod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ym mis Hydref 2017 wedi'u diweddarau i adlewyrchu prisiau cyfredol (chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, dyfarniadau cyflog a chynnydd yn nhaliadau pensiwn cyflogwyr). Mae hyn yn rhoi cynnydd o £19,000.

Comisiwn y Cynulliad

81. Mae Comisiwn y Cynulliad yn gofyn am £0.965 miliwn i ariannu'r cynnydd disgwylidig yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn 2019-20.

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 38

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

82. Mae **Swyddfa Archwilio Cymru** yn ceisio cynyddu ei ofyniad o ran adnoddau refeniw £732,000 ar gyfer 2019-20 i ariannu'r cynnydd yng nghostau pensiwn cyflogwyr.

83. Roedd Memorandwm Esboniadol Swyddfa Archwilio Cymru (atodiad 2) hefyd yn cynnwys addasiad technegol i'r ffordd y mae'n cyfrif am drosglwyddo arian ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Cyllideb Atodol Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi:

“Mae ein Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar ddull cyfrifyddu diwygiedig gyda swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru a'n harchwilwyr allanol. O 2018-19 ymlaen, mae'r dull hwn yn dychwelyd ein balans arian parod cyfan yn ddangosol i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth) a'i aildynnu y flwyddyn ganlynol (1 Ebrill). Dychwelyd ac aildynnu dangosol yw hyn, yn hytrach na throsglwyddiad ariannol ffisegol, ac mae'n cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.”³⁵

84. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno na ddylai Swyddfa Archwilio Cymru ddal symiau mawr o arian os yw'n cael arian o Gronfa Gyfunol Cymru, gan nodi:

“...there are two mechanisms by which you can regularise that position. One is effectively to actually just physically pay the cash back into the fund. The other is to notionally make a payment, and effectively it comes off your next year total. So, we've had that discussion with them and we're content with their proposal in that respect.”³⁶

Barn y Pwyllgor

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

85. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r amrywiad y gofynnwyd amdano gan yr Ombwdsmon i weithredu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r Pwyllgor hefyd yn atgoffa'r Ombwdsmon o'i rwymedigaeth

³⁵ Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20. Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 17

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2019, paragraff 41

mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer adolygu'r Ddeddf ar ôl iddi gael ei chyflwyno ([adran 73](#)), a nodir yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd ar y cyd â'r Bil ([paragraffau 14.14-15](#)). Mae'r Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gadw cofnodion er mwyn adrodd ar wahân ar y gwir gostau yr eir iddynt o ganlyniad i'r Bil a nifer y cwynion a wneir o dan y pwerau newydd perthnasol.

86. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dull cyfrifyddu diwygiedig y cytunwyd arno rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, ei harchwilwyr allanol a Llywodraeth Cymru ynghylch ei sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Casgliad 4. Bydd y Pwyllgor yn ystyried gweithrediad y dull cyfrifyddu diwygiedig a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gynnal ei waith craffu blynyddol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn yr hydref.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyllideb Atodol 2019-20

Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cefndir

Bu'r Amcangyfrif ar gyfer 2019/20 yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2018, a chafodd ei gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol ym mis Rhagfyr 2018.

Cafwyd cyfeiriadau yn y gosodiad Amcangyfrifon at y gofyniad i gyflwyno Cyllideb Atodol mewn perthynas â:

- Costau'n gysylltiedig â'r Bil OGCC newydd sy'n adlewyrchu'r rhai y manylwyd arnynt yn y Memorandwm Esboniadol. Codwyd y rhain i adlewyrchu cyflogau a phrisiau cyfredol yn unol â Chasgliad 1 o Graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Amcangyfrifon yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-2010 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018.
- Costau pensiwn cyflogwr ychwanegol mewn perthynas â chynnydd Cenedlaethol i gyfraddau cyfraniad cyflogwr ar gyfer pensiynau sector gyhoeddus.

Mae cost ychwanegol y ddwy eitem hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad A o'r nodyn hwn.

Cynnydd ym Mhensiwn Cyflogwr o 1 Ebrill 2019

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau'r llynedd i gyflwyno newidiadau pellach i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus o Ebrill 2019. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at gynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwr o Ebrill 2019 lle mae Llywodraeth y DU wedi neilltuo £4.7bn yng nghyllideb yr hydref i helpu sefydliadau sector gyhoeddus gwrdd â'r costau hyn yn 2019-20.

Cadarnhawyd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau sector cyhoeddus yn 2019-2020 i'w galluogi i gwrdd yn llawn â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau pensiwn hyn.

Darperir Hysbysiad Pensiynau Cyflogwr 567, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2019, wybodaeth am y newidiadau yng nghyfraddau cyflogwr o 1 Ebrill 2019.

Band	2018-19	2019-20	Newid
Band 1 (£23,000 ac o dan)	20.0%	26.6%	6.6%
Band 2 (£23,001 i £45,500)	20.9%	27.1%	6.2%
Band 3 (£45,501 i £77,000)	22.1%	27.9%	5.8%
Band 4 (£77,001+)	24.5%	30.3%	5.8%

Effaith y Cynnydd ym Mhensiwn ar OGCC

Mae OGCC yn cyflogi 67 o weithwyr ac mae 65 ohonynt yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Y gyllideb gyflog ar gyfer 2019-20 yw £2,514,000 ac effaith y cynnydd ym mhensiwn yw twf ychwanegol o 5.9% yng nghyfraniadau cyflogwr, sy'n dod i gyfanswm o £148,000 ac sy'n ddaliadwy i Bensiynau'r Gwasanaethau Sifil o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r costau wedi'u cynnwys yn Atodiad A y Gyllideb Atodol.

Y Bil OGCC Newydd

Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gyda phleidlais yn y Senedd ar ddydd Mercher, 20 Mawrth 2019. Dyma'r Bil cyntaf i'w basio a gyflwynwyd gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad.

Roedd y costau gwreiddiol y manylwyd arnynt yn y memorandwm esboniadol 2017 yn cynnwys mwy o staff, cyngor proffesiynol, costau'n gysylltiedig â TG a swyddfa yn ogystal â chostau sefydlu un tro, sy'n cynnwys offer TG a swyddfa yn ogystal â recriwtio staff. Mae'r rhain yn gyfanswm o £340k ac fe'u nodir yn y tabl isod.

Cyflog	Ffioedd Ymgynghorwyr	Hyfforddia nt teithio	Swyddfa / TG	Costau un tro	Cyfanswm
£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cwynion llafar	35	0	1	5	46
Ymchwiliadau ei hun	115	10	2	10	147
Safonau Cwyno	115	10	2	10	147
Cyfanswm	265	20	5	25	340

Cytunwyd y byddai'r costau'n cael eu diweddarau i brisiau cyfredol un waith y cytunwyd ar y bil – Chwyddiant CPI, gwobrwyon cyflog a'r cynydd ym mhensiwn cyflogwr. Cost lawn y flwyddyn yw £359k.

Cyflog	Ffioedd Ymgynghorwyr	Hyfforddiant teithio	Swyddfa / TG	Costau un tro	Cyfanswm
£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cwynion llafar	36	0	1	5	47
Ymchwiliadau ei hun	121	11	2	11	156
Safonau Cwynion	121	11	2	11	156
Cyfanswm	278	22	5	27	359

Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol, rhagwelir mai'r dyddiad cychwyn fydd mis Gorffennaf 2019, gan arwain at gostau cylchol o £224k am ran o'r flwyddyn, yn ogystal â chostau un tro o £27k sy'n gyfanswm o £251k – fel y dangosir isod.

	Cyflog	Ffioedd Ymgynghorwyr	Hyfforddiant teithio	Swyddfa / TG	Costau un tro	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cwynion llafar	24	0	1	3	5	33
Ymchwiliadau ei hun	81	8	1	8	11	109
Safonau Cwynion	81	8	1	8	11	109
Cyfanswm	186	16	3	19	27	251

Mae'r costau cylchol am ran o'r flwyddyn a'r costau sefydlu un tro wedi'u cynnwys yn Atodiad A y Gyllideb Atodol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyllideb Atodol 2019/20	Cyllideb 2019/20	Costau Pensiwn	Bil OGCC newydd		Cyfanswm y Gyllideb Ddiwygiedig
			Cylchol (rhan o flwyddyn)	Costau un tro	
	£000	£000	£000	£000	£000
A. DEL Cyfalaf	22	0	0	5	27
B. Refeniw Cyllidol DEL					
Costau Staff	3,385	148	186	0	3,719
Hyfforddiant a Recriwtio	55	0	0	20	75
Ffioedd Cyngori a chyfreithiol	260	0	16	0	276
Cyfathrebu	45	0	0	0	45
Teithio a chynhaliaeth	35	0	3	0	38
Costau Swyddfa	120	0	19	1	140
TG	180	0	0	1	181
Rhagosodiadau	380	0	0	0	380
Cyfanswm	4,460	148	224	22	4,854
Incwm	-17	0	0	0	-17
Cyfanswm Refeniw Cyllidol DEL	4,443	148	224	22	4,837
C. DEL nad yw'n arian					
Dibrisiant	70	0	0	0	70
Refeniw DEL (B+C)	4,513	148	224	22	4,907
Cyfanswm DEL (A+B+C)	4,535	148	224	27	4,934
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)					
Symudiad LGPS	0	0	0	0	0
Symudiad darpariaethau	20	0	0	0	20
Cyfanswm AME	20	0	0	0	20
Cyfanswm Gwariant a Reolir	4,555	148	224	27	4,954
Adnoddau Gofynnol	4,555	148	224	27	4,954
Dibrisiant	-70	0	0	0	-70
Newid yn nharpariaethau	-20	0	0	0	-20
Symudiad mewn Cyfalaf Gweithio	20	0	0	0	20
Gofyniad Arian Parod Net	4,485	148	224	27	4,884



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1243A2019-20

Memorandwm esboniadol

Fe'i cyflwynir i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett
Cadeirydd ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cynnwys

Pwrpas y memorandwm esboniadol hwn

Cyflwyniad	4
Y rheswm dros y newid	4
Addasiadau i'r adnoddau referiw a chyfalaf – egluro'r newidiadau	5
Y gofyniad arian parod net – egluro'r newidiadau	6
Crynodeb	8

Atodiadau

Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)	9
Atodiad 2 – Crynodeb o ofynion cyllidebol 2019-20 i'w cynnwys yng nghynnig cyllideb atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006	10

Pwrpas y memorandwm esboniadol hwn

Cyflwyniad

- 1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor bwysu a mesur yr amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei dyb ef.
- 2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20 ei gynnwys yng nghynnig cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2019 ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid graffu arno.
- 3 Roedd y cynnig ar y gyllideb yn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru gadw £14.475 miliwn o adnoddau cronus sy'n deillio o'r ffioedd a godir ar y cyrff a archwilir, ac roedd yn darparu £7.146 miliwn o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y swm hwn o £21.621 miliwn i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru pan fydd yn cyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn awr yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Y rheswm dros y newid

- 5 Roedd [Amcangyfrif 2019-20](#) yn cyfeirio at gynnydd disgwylidig yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn sgil prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ond nid oedd y prisiad hwnnw wedi'i gwblhau pan osodwyd ein Hamcangyfrif.
- 6 Roeddem yn disgwyl i'n costau gynyddu oddeutu £750,000 ac, fel yr eglurwyd ar y pryd, nid oedd modd inni ysgwyddo'r costau hynny o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Bu inni egluro ein hopsiynau wrth y [Pwyllgor Cyllid](#), sef naill ai ddychwelyd at y Pwyllgor i gynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru neu geisio trosglwyddo'r cynnydd i'r cyrff a archwilir drwy gynyddu ein ffioedd. O wneud hynny, eglurwyd y byddai angen inni ddychwelyd at y Pwyllgor i gytuno ar Gynllun Ffioedd diwygiedig, yn ogystal ag Amcangyfrif diwygiedig.
- 7 Ar 7 Chwefror 2019, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet gyfraddau o 1 Ebrill 2019 ar sail canlyniadau drafft y prisiad a dywedodd ei bod yn bwriadu diwygio'r rhain o 1 Ebrill 2020 pan fydd y prisiad wedi'i gwblhau. Gan fod y cyfraddau o 1 Ebrill 2019 wedi'u cadarnhau erbyn hyn, rydym wedi cyfrif y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo cost ychwanegol o £732,000 ym mlwyddyn ariannol 2019-20.

- 8 Cawsom wybod bod y Trysorlys wedi darparu arian i adrannau i dalu'r costau uwch hyn yn 2019-20¹. Ac, ar 8 Mawrth, cyhoeddodd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, y bydd 'Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau sector cyhoeddus yn 2019-20 er mwyn eu galluogi i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â newidiadau pensiwn Llywodraeth y DU'.
- 9 Rydym wedi adolygu'r posibilrwydd o ysgwyddo cyfran o'r costau ychwanegol hyn o fewn ein Hamcangyfrif presennol ar gyfer y flwyddyn. Daethom i'r casgliad y byddai'r risgiau ariannol o wneud hynny'n rhy uchel yng nghyd-destun Amcangyfrif sy'n gofyn inni gyflawni tua £800,000 o arbedion o ran swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a chael hyd i £574,000 ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eraill.
- 10 I dalu'r costau ychwanegol hyn, buom hefyd yn ystyried cynyddu ein cyfraddau ffioedd a, thrwy hynny, y ffioedd a godir ar gyrf cyhoeddus am ein gwaith archwilio. Daethom i'r casgliad y byddai hynny'n gwneud niwed mawr i enw da Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi diogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag costau uniongyrchol y cynnydd. Am y rhesymau hyn, rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid gefnogi cynnig i gynyddu'r swm yr ydym yn ei gael o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn amlinellu'r addasiadau y mae angen eu gwneud i Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20.

Addasiadau i'r adnoddau refeniw a chyfalaf

- 11 Fel yr eglurir uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am gynnydd o £732,000 i'w hadnoddau refeniw gofynnol ar gyfer 2019-20 i ariannu'r cynnydd yng nghostau pensiwn y cyflogwr. Ceir mwy o fanylion yn [Atodiad 1](#).
- 12 Nodir y newidiadau gofynnol i'r gyllideb yn [Arddangosyn 1](#).

Arddangosyn 1: newidiadau i gyllideb 2019-20

	Amcangyfrif cymeradwy 2019-20 £'000	Amcangyfrif atodol 2019-20 £'000	Amcangyfrif diwygiedig 2019-20 £'000
Adnodd refeniw	6,936	732	7,668
Adnodd cyfalaf	210	–	210
Adnoddau cronus	14,475	–	14,475
Cyfanswm y gwariant	21,621	732	22,353

¹ [Pensiynau: Datganiad ysgrifenedig – HCWS1286](#) '... the Treasury is in the process of allocating funding to departments to help with these costs'.

Y gofyniad arian parod net – egluro'r newidiadau

- 13 Yn ogystal â chynyddu ein gofyniad arian parod net i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mae angen inni wneud newid technegol pellach i adlewyrchu ein sefyllfa arian parod ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben.
- 14 Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dychwelyd ar ddiwedd y flwyddyn dim ond yr elfen honno o'r tanwariant sy'n ymwneud yn benodol â'r gyllideb ar gyfer 'adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus' yn ein cyllideb gymeradwy (wedi'i haddasu ar gyfer unrhyw symudiadau o ran cyfalaf gweithio a thrafodiadau heb fod yn arian parod fel dibrisiant). Mewn geiriau eraill, rydym wedi dychwelyd dim ond yr elfen honno o'r arian parod sy'n ymwneud â gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru.
- 15 Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ein balansau arian parod i raddau helaeth yn ymwneud ag incwm ffioedd sydd wedi dod i law gan gyrff a archwilir cyn inni ymgymryd â'r gwaith archwilio. Mae'r rhan fwyaf o'n ffioedd yn cael eu codi ar ffurf rhandaliadau misol drwy gydol y flwyddyn, gyda gwaith archwilio'n cael ei gyflawni'n raddol ar draws blynyddoedd ariannol.
- 16 Mewn geiriau eraill, pan fyddwn yn derbyn incwm cyn inni ymgymryd â'r gwaith y mae'n berthnasol iddo, mae angen inni ddwyn yr incwm hwnnw ymlaen i dalu ein costau pan fyddwn yn ymgymryd â'r gwaith. Nid yw hyn yn fater o bwys yn ystod y flwyddyn ariannol ond, ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n fater o bwys o ran cyfrifyddu Cronfa Gyfunol Cymru wrth inni symud o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall. Mae angen dwyn ymlaen o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall yr incwm sy'n dod i law ym mis Mawrth ar gyfer gwaith y byddwn yn ymgymryd ag ef o fis Ebrill ymlaen.
- 17 Mae ein Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar ddull cyfrifyddu diwygiedig gyda swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru a'n harchwilwyr allanol. O 2018-19 ymlaen, mae'r dull hwn yn dychwelyd ein balans arian parod cyfan yn ddangosol i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth) a'i aildynnu y flwyddyn ganlynol (1 Ebrill). Dychwelyd ac aildynnu dangosol yw hyn, yn hytrach na throsglwyddiad ariannol ffisegol, ac mae'n cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM. Mae ein cyfrifon drafft ar gyfer 2018-19 yn cynnwys balans arian parod o £1,776,000 ar ddiwedd y flwyddyn.
- 18 O dan y dull cyfrifyddu diwygiedig hwn, byddwn yn dychwelyd ein **balans arian parod cyfan** yn ddangosol ar ddiwedd y flwyddyn (£1,776,000 ar gyfer 2018-19) ac yn ceisio addasiad i amcangyfrif arian parod Cronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol newydd (2019-20) i adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.
- 19 I ddwyn y balans hwn ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ac i adlewyrchu'r arian parod ychwanegol sydd ei angen i dalu'r costau pensiwn ychwanegol, mae angen cynnydd o £2,640,000 i'n gofyniad arian parod net ar gyfer 2019-20 fel y dangosir yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: newidiadau i ofyniad arian parod net 2019-20

	Amcangyfrif cymeradwy 2019-20 £'000	Amcangyfrif atodol 2019-20 £'000	Amcangyfrif diwygiedig 2019-20 £'000
Cais net am adnoddau – reffeniw a chyfalaf	7,146	732	7,878
Addasiad anariannol	(200)	–	(200)
Addasiad ar gyfer cyfalaf gweithio 2018-19 (fel y dangosir yn Arddangosyn 3)		1,908	1,908
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	6,946	2,640	9,586

20 Nodir ein haddasiadau ar gyfer y cyfalaf gweithio yn unol â fersiwn ddrafft
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: addasiad ar gyfer cyfalaf gweithio 2018-19

	£'000
Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo ar 31 Mawrth 2019	(2,259)
Symiau derbyniadwy eraill ar 31 Mawrth 2019	(339)
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill ar 31 Mawrth 2019	1,538
Incwm gohiriedig ar 31 Mawrth 2019	2,371
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau sy'n ddyladwy yn 2019-20 ar 31 Mawrth 2019	597
Addasiadau i falansau arian parod 2018-19	1,908

Crynodeb

21 Mae **Arddangosyn 4** yn rhoi crynodeb o'r adnoddau cyfalaf a referniw a'r gofyniad arian parod net diwygiedig o gymeradwyo'r amcangyfrif atodol hwn.

Arddangosyn 4: crynodeb o adnoddau a gofynion arian parod diwygiedig 2019-20

	Cais am adnoddau £'000	Gofyniad arian parod net £'000
Adnodd referniw	7,668	9,376
Adnodd cyfalaf	210	210
Cyfanswm	7,878	9,586

Atodiad 1

Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)

Arddangosyn 5: Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)

		Amcangyfrif, y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 (diwygiedig) £'000	Amcangyfrif, y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 £'000
Treuliau	Costau staff	15,917	15,185
	Staff o dan gontractau tymor byr	737	737
	Teithio a chynhaliaeth	1,216	1,216
	Swyddfeydd	993	993
	Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW)	905	905
	Balans TAW anadenilladwy	500	500
	TGCh	480	480
	Trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	300	300
	Hyfforddiant allanol	289	289
	Cyfieithu dogfennau	165	165
	Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	162	162
	Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	479	479
	CYFANSWM Y TREULIAU	22,143	21,411
Incwm	Ffioedd archwilio	13,277	13,277
	Ffioedd ardystio grantiau	1,198	1,198
	CYFANSWM YR INCWM	14,475	14,475
	Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru	7,668	6,936

Atodiad 2

Crynodeb o ofynion cyllidebol 2019-20 i'w cynnwys yng nghynnig cyllideb atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'), caiff Gweinidogion roi cynnig i gymeradwyo cyllideb atodol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i ganiatáu i bersonau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, ddefnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r Gronfa Gyfunol.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020, bydd cynnig y gyllideb yn caniatáu:

- swm yr adnoddau a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- swm yr adnoddau a gronnir gan Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu cadw (yn hytrach na'u talu i'r Gronfa Gyfunol);
- y swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn **Nhabl 1** isod, ceir crynodeb o'r gofynion hyn. Gan fod y ffrydiau incwm hyn yn gallu amrywio, mae'r ffigurau hyn o reidrwydd yn amcangyfrifon.

Tabl 1: crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2019-20

	£'000
Adnoddau ac eithrio adnoddau cronuss i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: <ul style="list-style-type: none">• Refeniw• Cyfalaf	7,668 210
Adnoddau cronuss o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac incwm amrywiol sy'n deillio o gyhoeddiadau, cynadleddau a darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru	14,475
Y gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	9,586

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru